**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1373
Ein cyf/Our ref DB/00706/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 10 Hydref, ynglŷn â deiseb P-06-1373 sy'n ymwneud â phrosiect Skyline yn Kilvey Hill.

Fi sy'n ymateb gan fod hwn yn brosiect y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi sydd yn fy mhortffolio i, sef y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Mae prosiect Skyline yn Abertawe yn cael ei gynnig gan ddatblygwr preifat o'r enw Skyline Enterprises Limited – cwmni o Seland Newydd sy'n gweithredu ac yn berchen ar saith atyniad  presennol yn Seland Newydd, Canada, ac Asia.

Bwriad y prosiect hwn yw creu canolfan Ewropeaidd ac atyniad blaenllaw yn Kilvey Hill, Abertawe. Bydd y prosiect yn creu atyniad 'Skyline'. Mae'r prif weithgareddau yn cynnwys car cebl gondola o safle Gwaith Copr Hafod Morfa, tair reid *luge*, siglen awyr a weiren wib gydag atyniad sy'n cynnig bwyd a diod ar gopa Kilvey Hill.

Gan ystyried pryderon allweddol o destun y ddeiseb, rwyf wedi mynd i'r afael â phob pwynt yn ei dro.

<u>Llwyddiant y prosiect</u>

Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, rydym yn ystyried llawer o ffactorau, ac rydym yn ymdrechu'n gyson i gael y gwerth gorau posibl o bob un o'n buddsoddiadau prosiect.

Mae Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (WIDAB) yn craffu ar y broses o wneud penderfyniadau buddsoddi ac yn adolygu prosiectau a gwneud argymhellion arnynt.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Archwiliodd WIDAB, https://www.llyw.cymru/bwrdd-cynghorol-cymru-ar-ddatblygu-diwydiannol, y buddsoddiad arfaethedig ym mhrosiect Skyline cyn i'r penderfyniad Gweinidogol i gefnogi'r prosiect gael ei wneud.

Rhagwelir y bydd y buddsoddiad ym mhrosiect Skyline yn darparu – dros gyfnod y cytunir arno – hyd at 100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac yn ysgogi buddsoddi sylweddol gan y sector preifat. Yn ogystal, bydd y prosiect yn cael effaith anuniongyrchol ar yr economi drwy waith adeiladu, cyflogau a gwariant ymwelwyr, a'r effaith ar gadwyni cyflenwi.

Cyllid

Gosodir dyfarniadau grant yn erbyn targedau y mae rhaid i brosiect Skyline eu cyflawni, ac fe'u gwneir fesul cam drwy gydol y broses. Mae'r cais i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth ariannol o £4 miliwn, sy'n rhan o'r fenter gyffredinol sy'n werth £34 miliwn. Mae'r dyfarniad ariannu hefyd yn ddarostyngedig i gyfres o amodau, gan gynnwys cymeradwyo caniatâd cynllunio a chadarnhau pryniannau tir.

Yr amgylchedd

Gallaf gadarnhau ei bod yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried y cais yn unol â'r polisïau cynllunio cenedlaethol, sy'n cynnwys ystyriaethau amgylcheddol. Mae Skyline wedi cwblhau arolygon topograffig, amgylcheddol ac ecolegol cyn gwneud cais am gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi llwybrau clir a fframweithiau polisi ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) 11 ar gyfer y system gynllunio, er mwyn ymateb i dueddiadau a chylchoedd amgylcheddol negyddol a sicrhau canlyniadau cynaliadwy gwell. Mae PPW11 yn nodi fframwaith cryf ar gyfer diogelu coed, coetiroedd a gwrychoedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr sicrhau bod plannu cydbwyso'n digwydd pan gaiff coetir neu goed eu tynnu fel rhan o gynllun arfaethedig. Mae hyn yn ogystal â'r amddiffyniad a roddir gan Orchmynion Diogelu Coed a weinyddir gan awdurdodau lleol hefyd.

Mae Skyline wedi ennill gwobr gan Seland Newydd am ei arferion cynaliadwy, sef Gwobr Aur Qualmark.

Bydd adeiladau newydd yn cyrraedd safon ragorol BREEAM lle bo angen. Fel rhag amod unrhyw gymorth, mae'n ofynnol i Skyline gynnal archwiliad annibynnol o'i berfformiad amgylcheddol yn Abertawe, drwy gynllun achredu allanol fel yr Agoriad Gwyrdd neu gynllun cyfwerth.

I grynhoi, nod ein dull buddsoddi ar gyfer prosiect Skyline yw cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol ac economaidd y prosiect a sicrhau bod ein cyllid yn gysylltiedig â thargedau clir sy'n cael eu cyflawni.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**